

CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS CYMUNEDAU

DYDD MAWRTH, 15 TACHWEDD 2016

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd: P.A. Palmer (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:

R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Ystafell 61, Neuadd y Sir, Caerfyrddin: 10.00 a.m. - 10.20 a.m.

1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 12FED MAI 2016

PENDERFYNWYD Ilofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 12fed Mai 2016 yn gofnod cywir.

3. Y DDEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIO

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried y canlynol:

- Adroddiad am y gweithgaredd cudd-wyllo yr oedd y Cyngor wedi ymgymryd ag ef yn 2015/2016;
- Adroddiad gan Swyddfa'r Comisiynydd Arwyllo yn dilyn arolygiad ym mis Ebrill 2016;

Nodwyd bod unig argymhelliad y Comisiynydd Arwyllo yn ymwneud â hyfforddiant Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio, yr oedd sylw'n cael ei roi iddo. Hefyd roedd ei adroddiad yn awgrymu rhai newidiadau i weithdrefnau cudd-wyllo y Cyngor, a rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i ddogfen ddiwygiedig a oedd yn cynnwys y newidiadau hynny.

O ran lefel isel y gweithgaredd cudd-wyllo, cynigiwyd rhoi'r gorau i gyflwyno adroddiadau'n chwarterol, ac yn hytrach hysbysu'r Aelod perthnasol o'r Bwrdd Gweithredol a oedd caniatâd wedi'i roi, ynghyd ag adroddiad blynyddol a oedd yn crynhoi'r holl weithgaredd o'r fath.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiadau a chymeradwyo'r newidiadau arfaethedig yng Ngweithdrefnau Cudd-wyllo y Cyngor.

AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL

DYDDIAD